CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

CYNGOR TREF RHUTHUN
22 o DACHWEDD 2021

ITEM 7

Cofnodion (DRAFFT) Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo Zoom nos Lun 18 Hydref 2021 am 7:00pm.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Heather Williams (Maer), Menna Jones (Dirprwy Faer) Cynghorwyr Stephen Beach, Christine Ellis, Gavin Harris, Ken Hawkins, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Mike van der Eijk, Ifan Wyn, Rachel Lewington, Ethan Jones a Jabez Oakes.
Cynghorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.

YN BRESENNOL: Mair Davies (Cyfeillion y Ddaear) – eitem 4 ar yr agenda yn unig (cofnod 110)
Siân Clark – Clerc Tref Rhuthun
Kate Harcus – Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr yr Hen Lys
Marian Rees – Cyfieithydd

Cyn dechrau'r cyfarfod cafwyd munud o dawelwch er cof am Syr David Amess AS.

107. CROESO AC YMDDIHEURIADAU
Ymddiheuriadau: Cynghorydd Jim Bryan

108. DATGAN BUDDIANNAU
- Datganodd y Cynghordydd Robert Owen-Ellis fuddiant personol yn eitem 23 ar yr agenda (cofnod 129) fel cyn-Gapten a Noddwr presennol Clwb Rygbi Rhuthun.
- Datganodd y Cynghorydd Ifan Wyn fuddiant personol yn eitem 3 ar yr agenda (cofnod 111)

109. ReSOURCE
Ar gais Janine Cusworth, Sylfaenydd/Cyfarwyddwr Menter Gymdeithasol Cwmni Buddiannau Cymunedol ReSource, gohiriwyd yr eitem hon a byddai'n cael ei hystyried ryw dro eto yn y dyfodol.

110. COP26: CYFLWYNIAD GAN GYFEILLION Y DDAEAR RHUTHUN

Ar ran Cyfeillion y Ddaear Rhuthun, rhoddodd Mair Davies drosolwg o'r gweithgareddau arfaethedig a oedd i ddigwydd yn y dref ac oddi amgylch, i gydfynd â COP26. Byddai'r rhain yn cynnwys:
- Trafodaethau grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol yn ymwneud â'r amgylchedd a COP26 yn Eglwys Sant Pedr;

- Sesiynau gwybodaeth yn yr Hen Lys;
- Ysgolion i greu posteri i'w harddangos yn lleol;
- Arddangosfeydd mewn ffenestri siopau i godi ymwybyddiaeth o COP26 a phryderon amgylcheddol;
- Digwyddiad plannu coed ar 13 Tachwedd 2021 yn Llanfwrog.

Byddai gwybodaeth am yr amrywiol weithgareddau yn cael ei rhannu mewn cyhoeddiadau newyddion lleol, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar bosteri o amgylch y dref.

Nododd yr Aelodau'r wybodaeth a rannwyd a gofynnwyd am gopi o'r poster, ar ôl iddo gael ei gwblhau, er mwyn helpu i roi cyhoeddusrwydd i'r amrywiaeth o ddigwyddiadau a oedd yn digwydd mewn perthynas â COP26.

111. ADRODDIAD Y MAER

Nodwyd yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd gyda'r agenda, a oedd yn amlinellu gweithgareddau a digwyddiadau'r Maer ers cyfarfod blaenorol y Cyngor Tref ym mis Medi.
PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiad y Maer.*

112. ADRODDIADAU'R AELODAU

Trafododd yr Aelodau adroddiadau'r Aelodau fel y'u dosbarthwyd gyda'r agenda.
PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys adroddiadau'r Aelodau.*

113. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Yn ogystal â'r adroddiad a ddosbarthwyd gyda'r agenda, rhoddwyd gwybod i Aelodau'r Cyngor Tref am y canlynol:

Dywedodd y Cynghorydd Sir, Huw Hilditch-Roberts y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud gwaith y tu ôl i'r gwely blodau uchel ar gornel Borthyn i leddfu unrhyw broblemau niweidiol i eiddo cyfagos. Cyngor Sir Ddinbych sy'n berchen yr ardal ar hyn o bryd. Cydnabuwyd a gwerthfawogwyd gwaith ac ymrwymiad y gwirfoddolwyr presennol a blaenorol yn gofalu am y gwelyau blodau. Tynodd aelodau'r Cyngor Tref sylw at yr angen i unrhyw waith gael ei wneud mewn modd sensitif.

Dywedodd y Cynghorwyr Sir, Emrys Wynne a Bobby Feeley fod un o bwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych, trwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen, wedi trafod dyfodol Meifod Wood Products ac wedi argymell ei ail-agor. Nid oedd y Cabinet wedi trafod y mater eto.
PENDERFYNWYD: *derbyn Adroddiad Cynghorwyr Sir Rhuthun.*

114. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL

Yn amodol ar y diwygiad canlynol a amlinellir mewn print trwm, cytunwyd ar y cofnodion:

- Cofnod 101 'dywedwyd fod ***Cyngor Tref Rhuthun*** yn fusnes'.

PENDERFYNWYD*: derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2021 fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiad a amlinellir uchod.*

115. MATERION YN CODI

Nid oedd materion yn codi

116. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Yn ogystal â gofyn am i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2021 gael eu hystyried, dywedodd y Cynghorydd Menna Jones wrth yr Aelodau bod arddangosfeydd blodau'r dref, a roddodd wledd o liw yn ystod misoedd yr haf, bellach wedi'u tynnu i lawr. Roedd llawer o

ymwelwyr a thrigolion wedi gwneud sylwadau cadarnhaol am yr arddangosfeydd.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2021.*

117. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATLBYGU
Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2021.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2021.*

118. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS
Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2021.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2021.*

119. GWEITHGOR Y GOFEB RYFEL
Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2021. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gyda John Pugh, y Pensaer Cadwraeth a chynrychiolwyr y Gweithgor y diwrnod canlynol. Byddent yn ymchwilio i ffynonellau cyllid posibl i helpu i ariannu'r gwaith sydd angen ei wneud ar y Gofeb Ryfel.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2021*

120. DYFODOL RHUTHUN A CHRONFA CODI'R GWASTAD – ADRODDIAD CYNNYDD
Rhoddodd y Cynghorydd Gavin Harris y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r Cyngor Tref. Er bod yr amserlen yn dynn ar gyfer darparu prisiau a mewnbwn proffesiynol i gais posibl ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad, roedd llawer o gymorth ac arbenigedd lleol yn cael ei ddefnyddio i arwain y cais. Tynnwyd sylw at y ffaith bod astudiaeth fanwl, a gynhaliwyd gan Gyngor Dosbarth Glyndŵr yn yr 1990au, wedi nodi amcanion ac uchelgeisiau tebyg i'r rhai a nodwyd gan Ddyfodol Rhuthun. Byddai arddangosfa'r ymgynghoriad, a fyddai'n ymgysylltu â'r gymuned ac yn ceisio'i barn ar uchelgeisiau Dyfodol Rhuthun, yn cael ei chynnal yn yr Hen lys o 23 Hydref ymlaen.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r wybodaeth lafar ddiweddaraf.*

121. FELODROM ARFAETHEDIG RHUTHUN
Rhoddodd y Cynghorydd Gavin Harris y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar lafar. Cyflwynwyd achos busnes ar Felodrom Gogledd Cymru i Chwaraeon Cymru, yn ceisio cytundeb mewn egwyddor ar gyfer cyllid. Ar ôl i Chwaraeon Cymru drafod yr achos busnes ac yn amodol ar gadarnhad o gyllid, y cam nesaf fyddai'r broses gynllunio fanwl a fyddai'n arwain at ymgynghoriad cyhoeddus. Eglurwyd y byddai angen cymeradwyaeth reoleiddiol cyn cael y cyllid, a oedd yn golygu y byddai'n rhaid cael indemniad ar gyfer y gwariant cychwynnol ar y broses gynllunio fanwl, a'i ad-dalu ar ôl cael cadarnhad o'r gymeradwyaeth ofynnol. Byddai adroddiad ffurfiol yn cael ei gyflwyno ar unrhyw gynnig digolledu, i'w ystyried gan y Cyngor Tref cyn bo hir.

Wrth i'r Aelodau drafod, gofynnwyd am i Lywodraethwyr Ysgol Brynhyfryd a thrigolion lleol gael gwybod am y cynnydd. Dywedodd y Cyngorydd Harris fod y ffocws presennol ar sicrhau cyllid, a phe bai hynny'n digwydd, byddai proses gynllunio fanylach yn arwain at ymgysylltu ac ymgynghori cyhoeddus ehangach.

Yn ogystal, gofynnwyd am gadarnhad ynghylch a gafodd yr achos busnes ei wrthod ai peidio. Mewn ymateb, dywedodd y Cyngorydd Harris nad oedd yn ymwybodol o unrhyw wrthodiad a bod disgwyl gwybodaeth gan Chwaraeon Cymru am yr achos busnes; roedd mewn cysylltiad rheolaidd â Chwaraeon Cymru. Cadarnhaodd y Cyngorydd Sir, Bobby Feeley hefyd nad oedd

wedi cael unrhyw arwydd ynghylch a gafodd yr achos busnes ei dderbyn neu ei wrthod gan Chwaraeon Cymru ond y byddai'n rhoi gwybod i'r Cyngor Tref pe bai'n cael unrhyw newyddion.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r wybodaeth lafar ddiweddaraf.*

122. RHEOLI'R PERYGL O LIFOGYDD YN RHUTHUN

Nodwyd cylchlythyr Cyfoeth Naturiol Cymru fel y'i dosbarthwyd gyda'r agenda. Dywedodd yr Aelodau nad oedd y gwaith ar arglawdd Cae Ddol wedi dechrau eto a gwnaed cais i gysylltu á Chyfoeth Naturiol Cymru i gadarnhau dyddiad cychwyn pendant. Yn dilyn cyntundeb diweddar y Cyngor Tref i gefnogi sefydlu Partneriaeth Llifogydd dan arweiniad y gymuned, byddai camau gweithredu cychwynnol yn cael eu cymryd i fynd ati i ffurfio'r Bartneriaeth.
***PENDERFYNWYD**: (i) derbyn cylclythyr Cyfoeth Naturiol Cymru ar Reoli'r Perygl o Lifogydd yn Rhuthun; a (ii) gofyn am gadarnhad o ddyddiad cychwyn y gwaith ar yr arglawdd yng Nghae Ddol.*

123. ADOLYGIAD SENEDDOL 2023 – CYNIGION CYCHWYNNOL

Trafododd yr Aelodau Gynigion Drafft y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol. Mynegwyd pryderon cyffredinol am y cynnig i leihau nifer yr Aelodau Seneddol yng Nghymru yn ogystal â'r cynnig i gynnwys Rhuthun yn etholaeth Delyn. Roedd y pwyntiau a'r safbwyntiau penodol a godwyd gan yr Aelodau mewn cysylltiad â'r cynigion yn cynnwys:

- Byddai'r gostyngiad yn nifer yr Aelodau Seneddol yng Nghymru yn niweidiol i'r genedl, a gallai cynigion etholaethol penodol gael canlyniadau niweidiol i Rhuthun, Sir Ddinbych a Gogledd Cymru.
- Roedd etholaeth Delyn, lle roedd Rhuthun wedi'i nodi i fod, yn gwahanu'r dref o'i chymunedau naturiol, cyfagos. Yn ogystal, roedd gan Delyn broffil economaidd a ieithyddol gwahanol i Rhuthun.
- Er eu bod yn cydnabod y sail rhifol dros gynnig yr etholaethau, yn rhannol, roedd problemau cynhenid fodd bynnag mewn ardaloedd gwledig yr oedd angen rhoi ystyriaeth, ymwybyddiaeth a sensitifrwydd ychwanegol iddynt. Roedd ardaloedd daearyddol yr etholaethau arfaethedig yn cynyddu mewn maint a mynegwyd pryderon na fyddai llais trigolion yn cael eu clywed, ac y byddai cynnydd yn llwyth gwaith a disgwyliadau Aelodau Seneddol. Mynegwyd barn fod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i'r niferoedd yn yr etholaethau mewn ardaloedd gwledig.

Cytunodd yr Aelodau bod y Cyngor Tref yn cyflwyno sylwadau ar Gynigion Drafft Adolygiad Seneddol 2023 yn mynegi ei anghytundeb â'r newidiadau arfaethedig. Rhoddwyd y dasg o ddrafftio ymateb i'r Maer a Chlerc y Dref, a byddai'n cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Cyngor Tref drwy e-bost, ar gyfer eu sylwadau a'u cytundeb.

***PENDERFYNWYD**:*

(i) cyflwyno sylwadau ar Gynigion Drafft Adolygiad Seneddol 2023 yn mynegi pryderon sylweddol y Cyngor Tref ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig.
(ii) Rhoddwyd y dasg o ddrafftio ymateb i'r Maer a Chlerc y Dref a byddai'n cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Cyngor Tref drwy e-bost, ar gyfer eu sylwadau a'u cytundeb.

124. SUL Y COFIO

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y trefniadau sydd ar waith ar gyfer Sul y Cofio a fyddai'n cael ei gynnal ddydd Sul 14 Tachwedd 2021.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer Sul y Cofio.*

125. CYFRANIAD CYNGOR TREF RHUTHUN I'R LLENG BRYDEINIG FRENHINOL
Trafododd yr Aelodau'r cyfraniad i'r Lleng Brydeinig Frenhinol tuag at y torchau pabi ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio. Cynigiwyd codi'r cyfraniad o £50 i £100 ar gyfer 2021, a chytunwyd ar hyn.
PENDERFYNWYD*: gwneud cyfraniad o £100 i'r Lleng Brydeinig Frenhinol tuag at y torchau pabi.*

126. DYDDIAU PARCIO AM DDIM
Rhoddodd y Cynghorwyr Tref ystyriaeth i benderfynu ar y pum diwrnod parcio am ddim yn Rhuthun ar gyfer 2021. Cafwyd cadarnhad bod y dyddiau parcio ar gyfer blwyddyn galendr 2021. Cynigiwyd y dyddiau canlynol, a chytunwyd arnynt:

- Dydd Sadwrn 27 Tachwedd 2021
- Dydd Sadwrn 4,11 a 18 Rhagfyr 2021
- Dydd Gwener 3 Rhagfyr 2021

PENDERFYNWYD*: cadarnhau'r dyddiau parcio am ddim fel a ganlyn: 27 Tachwedd, 3, 4, 11 a 18 Rhagfyr 2021.*

127. COEDEN NADOLIG A GOLEUADAU
Dywedodd Clerc y Dref wrth yr Aelodau ei bod wedi cael cadarnhad o'r cynnig gan Clogau i noddi'r Goeden Nadolig a'i goleuadau. Croesawodd yr Aelodau'r cadarnhad o nawdd ar yr amod bod gofynion nawdd Clogau (gan gynnwys unrhyw gysyniadau gweledol) yn unol â gweledigaeth ac agwedd y Cyngor Tref.
PENDERFYNWYD*: bod Clerc y Dref yn mynd ar drywydd manylion noddi'r Goeden Nadolig a'i goleuadau ymhellach gyda Clogau.*

128. CAIS GAN DARREN MILLAR AS I ANNERCH CYNGOR TREF RHUTHUN
Trafododd yr Aelodau gais gan Darren Millar AS i annerch cyfarfod o Gyngor Tref Rhuthun yn y dyfodol. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd bod y Cyngor Tref yn gwahodd pob cynrychiolydd priodol o San Steffan a'r Senedd i annerch y Cyngor Tref.
PENDERFYNWYD:
(i) derbyn cais Darren Millar AS i annerch cyfarfod o Gyngor Tref Rhuthun yn y dyfodol (ym mis Tachwedd 2021 os yw ar gael) ac;
(ii) ysgrifennu at pob cynrychiolydd priodol yn San Steffan a'r Senedd i'w gwahodd i annerch y Cyngor Tref.

129. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL: CLWB RYGBI RHUTHUN
Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i gais gan Glwb Rygbi Rhuthun am gymorth ariannol o £1,500 ar gyfer peli rygbi.

Cynigiwyd rhoi cymorth ariannol o'r swm y gofynnwyd amdano i Glwb Rygbi Rhuthun, a chytunwyd ar hyn ond ei fod yn cael ei roi fel nawdd gan y Cyngor Tref, gyda chydnabyddiaeth briodol.
PENDERFYNWYD: *bod Clwb Rygbi Rhuthun yn cael cymorth ariannol o £1,500 ar sail nawdd gan y Cyngor Tref, gyda chydnabyddiaeth briodol.*

130. ADNEWYDDU TANYSGRIFIAD BLYNYDDOL I GYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU
PENDERFYNWYD: *adnewyddu'r tanysgrifiad blynyddol i Gymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru am gost o £65.*

131. DATGANIAD ARIANNOL A DIWEDDARIAD TAW

Cafodd yr Aelodau'r datganiad ariannol ar gyfer y cyfnod yn dod i ben ar 30 Medi 2021 a rhoddwyd gwybod iddynt am y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer hawlio Treth ar Werth yn ôl.
PENDERFYNWYD: *derbyn y datganiad ariannol am y cyfnod sy'n dod i ben ar 30 Medi 2021 a nodi'r trefniadau a oedd ar waith ar gyfer hawlio Treth ar Werth yn ôl.*

132. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

OB	J & C Brimble	Dyfrio planhigion CTRh rhwng 08/09/2021 a 29/09/2021		£614.10
OB	Arial Electrics Limited	Gwaith cynnal a chadw trydanol ar lifoleuadau meindwr Eglwys Sant Pedr	*	£147.26
OB	Canada Copying	Rhentu copïwr 1/10/2021 – 31/12/2021 Costau copïo 30/06/2021 – 30/09/2021	*	£41.90 £30.79
OB	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 a 27 Medi; a chyfieithu cofnodion cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 a 27 Medi	*	£424.75
OB	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifo a chyflogres ar gyfer mis Hydref 2021	*	£240.00
OB	Clwb Pêl-droed Tref Rhuthun	Bwrdd noddi ar ochr y cae 2021/22		£250.00
OB	CBC Llanfwrog	Gwasanaethau torri glaswellt ar gyfer mis Hydref 2021		

(Mae'r eitemau sydd wedi'u nodi gyda * uchod yn cynnwys TAW y gellir ei adfer)

O gyfrif Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

OB	Scottish Power	Costau trydan am y cyfnod 17/06/2021 - 17/09/2021	*	£224.57
OB	Total Energies	Costau nwy am y cyfnod 05/08/2019 – 06/09/2021	*	£3,826.52

(Mae'r eitemau sydd wedi'u nodi gyda * uchod yn cynnwys TAW y gellir ei adfer)

133. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod arferol nesaf fydd nos Lun 22 Tachwedd 2021 am 7pm.*